## 1.Newidiadau i'r Amserlen Derbyn yn sgil Cyflwyno'r Dyddiadau Cynnig Cenedlaethol.

Yn sgil cyflwyno Dyddiadau Cynnig Cenedlaethol i Gymru, bydd Awdurdod Derbyn Ceredigion yn gorfod newid ei Weithdrefnau Derbyn presennol i gwrdd â'r dyddiadau cynnig newydd.

**a. O'r flwyddyn academaidd 2015/2016, bydd yn rhaid i'r dyddiad cynnig ar gyfer lleoedd uwchradd fod yn 1 Mawrth (neu'r dyddiad gwaith nesaf).**

Rydym yn rhagweld y bydd angen dosbarthu'r Pecyn Trosglwyddo Uwchradd ym mis Hydref (fe'i dosberthir yn Rhagfyr ar hyn o bryd) gan symud y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau o ddiwedd Ionawr i ddiwedd Rhagfyr.

**b. O'r flwyddyn academaidd 2018/2019, bydd yn rhaid i'r dyddiad cynnig ar gyfer lleoedd cynradd fod yn 16 Ebrill (neu'r diwrnod gwaith nesaf).**

Gan fod y dyddiad hwn yn gynharach na'r dyddiadau cau cyfredol ar gyfer derbyn ceisiadau, rydym yn rhagweld y bydd yn rhaid cyflwyno'r ceisiadau cynradd erbyn diwedd Ionawr er mwyn inni gwrdd â'r diwrnod cynnig o 16 Ebrill.

## 2.Plant o Enedigaethau Lluosog.

O'r flwyddyn academaidd 2014/2015, bydd yr 'eithriad' canlynol yn cael ei gynnwys i'r cyfyngiad statudol ar faint dosbarthiadau babanod –

Dyma'r plant ar eithrir:
'7.Plant y mae eu gefell neu frawd neu chwaer arall o enedigaeth luosog yn cael eu derbyn fel disgyblion nas eithrir, fel y disgybl(ion) olaf i gael lle cyn cyrraedd y nifer derbyn.'

Oblegid yr eithriad newydd hwn, bydd Awdurdod Derbyn Ceredigion yn derbyn gefell neu frawd neu chwaer arall o enedigaeth luosog hyd yn oed petai hynny'n fwy na'r maint eithaf a'r nifer derbyn. I fod yn glir, os yw'r plentyn diwethaf a dderbynnir yn cyrraedd y Nifer Derbyn ac yn un o enedigaeth luosog, yna bydd yr Awdurdod hefyd yn derbyn y brodyr a'r chwiorydd eraill.